**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Mehefin 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, B. Jones, Ms J. L. McAlpine, Miss S. L. Roberts a Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref.

## 2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – EBRILL 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apêl Rhan Amser 19/20 Taliad 1 o 12 |
| 731 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni 19/20 Taliad 1 o 4 |
| 735 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,550.00 | Ffi Tynweydd CC 19/20 Taliad 1 o 4 |
| 734 | HSBC | 10.40 | Taliadau Banc 17/03/19 hyd at 16/04/19 |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 723.00 | TANC ar gyfer Swyddfeydd Ffordd Wellington - Taliad 2 o 10 |
| 738 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu'r Diffyg Ebrill 2019 |
| 737 | HMRC | 2,742.71 | Didyniadau PAYE Ebrill 2019 |
| 741 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau ar gyfer Ebrill 2019 |
| 736 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,154.67 | Cyflogau Staff Mai 2019 |
| 739 | Canda Copying | 318.56 | Rhentu Llungopïwr a Chopïau Du a Gwyn |
| 740 | Canda Copying | 73.96 | Copïau lliw |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apêl Rhan Amser 19/20 Taliad 2 o 12 |
| 750 | Neopost | 200.00 | Peiriant Ffrancio |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£23,497.12** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 3. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 751 | Institute for Crazy Dancing | Reid bad achub ar gyfer Diwrnod y Maer 4ydd Mai 2019 | 1,560.00 |
| 752 | Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf ar gyfer Diwrnod y Maer 4ydd Mai 2019 | 72.00 |
| 753 | Ysgol Tir Morfa | Blodau ar gyfer y byrddau ar gyfer Noson y Maer 15fed Mai 2019 | 35.00 |
| 754 | Canolfan Merched Gogledd Cymru | Dosbarthu arian a godwyd gan y Maer 2018/19 | 816.50 |
| 755 | Cangen Glan Clwyd Sefydliad y Galon Cymru | Dosbarthu arian a godwyd gan y Maer 2018/19 | 1,231.46 |
| 756 | Cyngor Sir Ddinbych | Ad-daliad benthyciad SC2 2019/20 – Taliad 1 o 3 | 32,622.00 |
| 757 | TAPE | Perfformiad Ghostbuskers yn Nosn y Maer 15fed Mai 2019 | 100.00 |
| 758 | TAPE | Perfformiad Ghostbuskers ar Ddiwrnod y Maer 4ydd Mai 2019 | 125.00 |
| 759 | Rhyl Rugby Club Ltd | Arlwyo ar gyfer Noson y Maer ar 15fed Mai 2019 | 1,029.00 |
| 760 | Denbighshire County Council | CCTV Agreement 19/20 | 15,000.00 |
| 761 | JDH Business Services Ltd | Internal Audit Fee 18/19 | 693.60 |
| | | **Total Schedule B** | **£53,284.56** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydda chymeradwywyd yr ychwanegiadau canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:*

- Institute for Crazy Dancing – Reid "Bad Achub" ar gyfer Digwyddiad Diwrnod y Maer ym Mai
- Rhyl Rugby Club Ltd – Lleoliad ac Arlwyo ar gyfer Digwyddiad Sefydlu'r Maer

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 4. PERFFORMIAD BUDDSODDI 2018/19

Ymhellach i gofnod rhif 94 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Chwefror 2019, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar y llogau a gafwyd ar gyfrifon y Cyngor Tref o'r 1af Ebrill 2018 hyd at 31ain Mawrth 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 5. ADRODDIAD SICRHAD CADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Ymhellach i  gofod rhif 131 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mai 2019, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y caderirydd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) fel sy'n ofynnol dan reoliadau ariannol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 6. ARCHWILIO MEWNOL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Archwiliwr Mewnol ar gyfer 2018/19 (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Tynnodd Clerc y Dref sylw'r aelodau at feysydd a amlygwyd yn yr adroddiad interim a oedd yn derbyn sylw, yn benodol mewn perthynas â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Nododd Clerc y Dref hefyd sylw'r Archwiliwr Mewnol nad oedd "*wedi adnabod unrhyw faterion rheolaeth fewnol pellach yn codi a bod y papurau yn cefnogi cyfrifon diwedd y flwyddyn o ansawdd  uchel".* Mynegodd Clerc y Dref ei werthfawrogiad i'r Swyddog Cyllid am ei waith ar baratoi cyfrifon diwedd y flwyddyn.

***PENDERFYNWD*** *derbyn yr adroddiad a mynegi gwerthfawrogiad y pwyllgor i'r Swyddog Cyllid.*

## 7. CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cylch gorchwyl ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019/20.*

## 8. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU

Hysbysodd Clerc y Dref bod digwyddiad Glanhau'r Gtraeth wedi ei drefnu gan Community Heart Productions ar 8fed Mehefin 2019.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth.*

## 9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 10. YSWIRIANT CYNGOR TREF Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 134 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mai 2019, adroddodd Clerc y Dref, ar ôl arolwg o ddarpariaeth yswiriant y cyngor gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg, bod y cyngor wedi gwneud cytundeb blwyddyn gyda Royal & Sun Alliance a bod hyn wedi cynhyrchu arbediad i'r Cyngor o £400 o gymharu â'r cytundeb blaenorol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a diolch i'r is-bwyllgor Asesu Risg am eu gwaith.*

## 11. RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL / DEDDFAU DIOGELU DATA

Ymhellach i gofnod rhif 124 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Ionawr 2019, cyflwynodd Clerc y Dref nifer o ddogfennau drafft a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg ar gyfer cymeradwyaeth interim gan y cyngor ac yna eu cyhoeddi.

Dywedodd Clerc y Dref bod archwiliad wedi ei wneud o'r data a ddelid gan y cyngor a'r grym cyfreithiol i'w gadw.

Y dogfennau i'w cymeradwyo oedd:

11.1 Cynllun Cyflenwi
11.2 Polisi Diwygiedig Diogelu Data
11.3 Hysbysiad Preifatrwydd Mewnol
11.4 Hysbysiad Preifatrwydd Allanol
11.5 Polisi Diogelwch Gwybodaeth
11.6 Polisi Cyfathrebu a Chyfryngau Cymdeithasol (i ddilyn)
11.7 Trefniadau cydymffurfio RhCDD i'w dilyn os oes tor-rheol Data/SAR
11.8 Ffurflen Preifatrwydd Cynghorwyr
11.9 Hysbysiad Preifatrwydd Ebost
11.10 Caniatâd i gadw gwybodaeth

Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen hefyd paratoi Polisi Cyfathrebu a Chyfryngau Cymdeithasol (dogfen 11.6) maes o law.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r dogfennau uchod a'u mabwysiadu gan y Cyngor Tref.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 12. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………